# Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd – Cymhwysedd disgyblion y dosbarth Meithrin

## Cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, yn raddol

Ym mis Medi 2022, dechreuodd y broses o gyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd ledled Cymru, gan gychwyn gyda disgyblion y dosbarth Derbyn. Mae'r polisi'n rhan o Gytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru; mae'n golygu y bydd cynnig prydau ysgol am ddim yn cael ei ymestyn i bob disgybl ysgol gynradd dros y ddwy flynedd nesaf.

Yn dilyn cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd i ddisgyblion oedran y Derbyn, Blynyddoedd 1-4, a disgyblion cymwys o ran oedran yn y Meithrin, yn Rhondda Cynon Taf, bydd y cam nesaf yn dechrau ar 8 Ebrill 2024, lle bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys pob disgybl ym Mlwyddyn 5 a 6 a disgyblion **cymwys** yn y Meithrin.

Lleoedd Meithrin Llawn Amser sy'n cael eu darparu gan yr **Awdurdod Lleol**

O fis Ionawr 2023, cafodd y cynnig ei ymestyn i ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth Meithrin yr awdurdod lleol** yn llawn amser (sesiynau bore a phrynhawn) yn unol â pholisi'r Cyngor ar dderbyn disgyblion:-

Mae disgyblion sy'n mynychu darpariaeth Meithrin yr awdurdod lleol* ar sail llawn amser (sesiynau bore a phrynhawn) yn unol â pholisi derbyn y Cyngor, yn Ddisgyblion Meithrin Cymwys:-
•Bydd pob disgybl sy'n 4 oed, rhwng 1 Medi 2023 a 31 Rhagfyr 2023, yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o fis Ionawr 2024.

Bydd pob disgybl sy'n 4 oed, rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Mawrth 2024, yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o fis Ebrill 2024.

Bydd pob disgybl sy'n 4 oed, rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Awst 2024, yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o fis Medi 2024.

**Er mwyn rhoi dealltwriaeth fanylach i chi o'n meini prawf cymhwysedd ar gyfer derbyn disgybl yn llawn amser i'r Meithrin, mae rhan o lyfryn 'Dechrau'r Ysgol' y Cyngor wedi ei gynnwys isod; ynddo ceir y trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion Meithrin.

**NODER:** Mae rhai ysgolion yn cynnig, ac yn ariannu, lleoedd Meithrin yn uniongyrchol o gyllid eu hysgol eu hunain. Yn yr achos yma, dyw disgyblion ddim yn gymwys i

dderbyn prydau ysgol am ddim o dan y cynllun Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd.

**(Rhan o 'Llyfryn Dechrau'r Ysgol 2022-2023')**

## 2.1: Addysg Cyn-feithrin / Meithrin

Mae'r Cyngor yn adolygu ei weithdrefnau derbyn disgyblion ar gyfer addysg cyn-feithrin a meithrin anstatudol yn barhaus ac mae'n cadw'r hawl i'w diwygio.

**2.1.1 Addysg Cyn-feithrin**

Mae addysg cyn-feithrin ran-amser ar gael i blant yn ystod y tymor wedi iddyn nhw gael eu pen-blwyddi'n 3 oed. Bydd modd i rieni gyflwyno cais ar-lein ym mis Medi am le cyn-feithrin sy'n dechrau ym mis Ionawr (y tymor ar ôl i'w plentyn droi'n 3 oed), ac ym mis Ionawr ar gyfer mis Ebrill yn yr un modd.

**2.1.2 Addysg Feithrin**

Mae Addysg Feithrin ran-amser ar gael o fis Medi'r flwyddyn academaidd mae'r plentyn yn troi'n 4 oed. Mae llefydd amser llawn yn cael eu cynnig ar gyfer plant sydd wedi cael eu pen-blwyddi'n 4 oed.

## Oes gyda chi gwestiwn am gymhwysedd disgybl yn y Meithrin? Gobeithio y bydd y Cwestiynau Cyffredin yma o gymorth...

### *C: Mae fy mhlentyn yn cael ei ben-blwydd yn 4 oed ar 30/04/24 – pryd bydd yn cael Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd?*

A: Bydd unrhyw blentyn sy'n cael ei ben-blwydd yn 4 oed ar neu rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Awst 2024 sy'n mynychu sesiynau Meithrin yn y bore a'r prynhawn (yr un diwrnod), yn gymwys i gael Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd o fis Medi 2024.

### *C: Mae fy mhlentyn yn mynychu dosbarth meithrin amser llawn a dyw e/hi ddim yn cael cynnig cinio yn rhan o Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, ond rwy'n gwybod am eraill yn y dosbarth sy'n cael pryd o fwyd, sut mae hynny'n bosibl?*

A: Gall y plentyn naill ai fod yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (nid Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd), neu oherwydd ei oedran, efallai bod ei leoliad amser llawn yn y dosbarth Meithrin yn cael

ei ariannu gan yr Awdurdod Lleol yn hytrach na chyllideb yr ysgol*. Mae rhai ysgolion yn cynnig lle meithrin amser llawn o'u cyllideb ysgol eu hunain ac yn ei ariannu'n uniongyrchol, ond o dan amodau grant, fydd disgyblion ddim yn gymwys i gael Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd nes eu bod nhw'n ddisgybl llawn amser yn swyddogol (ac wedi'u hariannu gan yr Awdurdod Lleol).*

C: ***Rwy'n deall nad yw fy mhlentyn ar hyn o bryd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim na Phrydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, ond mae'n mynychu'r dosbarth Meithrin yn y bore a'r prynhawn. Oes modd i fi dalu iddo/iddi gael pryd o fwyd?***

A: Oes, mae modd i ni ddarparu pryd o fwyd; bydd yr ysgol yn esbonio'r broses dalu i chi.

**C: Mae ar fy mhlentyn angen Diet Wedi'i Ragnodi'n Feddygol – a fydd modd iddo gael pryd bwyd yn yr ysgol o hyd?**

**Gofyniad Dietegol wedi'i Ragnodi'n Feddygol**

Oes gan eich plentyn oed meithrin/ysgol cynradd alergedd neu anoddefiad bwyd, neu gyflwr meddygol a fydd yn golygu y bydd angen Diet Wedi'i Ragnodi'n Feddygol arno?

Os felly, mae modd rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Arlwyo a gwneud cais ar-lein o ran diet wedi'i ragnodi'n feddygol.

Os oes rhaid i chi gofrestru gofynion dietegol eich plentyn sydd wedi'u rhagnodi'n feddygol, yna ewch ati i lenwi'r Ffurflen isod. Bydd rhaid i chi lanlwytho'r dystiolaeth feddygol briodol, wedi'i chyflwyno gan ymarferydd meddygol neu ddietegydd cofrestredig, sy'n cadarnhau gofynion dietegol y plentyn.

Fe allwch chi gyrchu'r ffurflen gais yma ynghylch diet wedi'i ragnodi'n feddygol:

www.rctcbc.gov.uk/DietRhagnodiMeddygol

**C: Mae gan fy mhlentyn ddiet arbennig yn ei le yn barod, ond hyd yn hyn rydw i wedi talu am ei fwyd. Unwaith y bydd fy mhlentyn yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, a fydd yn rhaid i mi wneud cais arall o ran y diet?**

A: Os nad oes newid wedi bod i'r anghenion dietegol, does dim angen gwneud cais eto o ran Diet Wedi'i Ragnodi'n Feddygol. Os oes unrhyw beth wedi newid, bydd angen i ni wneud y trefniadau angenrheidiol cyn i'ch plentyn gael pryd o fwyd. Os oes gyda chi unrhyw amheuaeth ynghylch pa wybodaeth ddietegol sydd gyda ni ar hyn o bryd, anfonwch e-bost aton ni: gwasanaethauarlwyo@rctcbc.gov.uk.

Pe hoffech eglurhad pellach ar unrhyw un o’r atebion uchod, neu, os oes gyda chi gwestiwn nad ydyn ni wedi’i ateb eto, e-bostiwch ni gwasanaethauarlwyo@rctcbc.gov.uk neu ffoniwch 01443 281141.

**Mae'r cwestiynau canlynol yn berthnasol i grŵpiau blwyddyn eraill:**

***C: Oes angen i mi wneud cais am Brydau Ysgol Am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd pan ddaw fy mhlentyn yn gymwys?***

A: Does dim angen i rieni wneud cais am Brydau Ysgol am ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd, ond dylai'r rheiny a fyddai wedi gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim yn flaenorol wneud hynny o hyd.

***C: Roedd fy mhlentyn yn arfer cael Prydau Ysgol am Ddim, ond nawr mae'n cael Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, pam mae angen i mi lenwi ffurflen gais o hyd?***

A: Mae'r cais am Brydau Ysgol am Ddim yn gysylltiedig â rhaglenni eraill gan gynnwys gwisg ysgol. Os na wnewch chi gais, fydd eich plentyn ddim yn cael y buddion cysylltiedig. Gwnewch gais yma: -

Prydau Ysgol am Ddim – Gwneud cais am brydau ysgol am ddim | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

***C: Os yw fy mhlentyn yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd ac yn mynd ar drip ysgol, a fydd yn dal i gael pryd o fwyd?***

A: Bydd. Bydd pecyn bwyd yn cael ei ddarparu ar gyfer y diwrnod hwnnw.

***C: Os yw fy mhlentyn yn sâl a ddim yn mynd i'r ysgol, a fyddaf i'n cael taliad yn lle'r bwyd?***

A: Na fyddwch. Does dim ad-daliad ar gyfer disgybl sydd ddim yn yr ysgol i dderbyn ei Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd.

***C: Dydy fy mhlentyn ddim yn cael ei addysg mewn Sefydliad Addysgol Gwladol, ond yn hytrach mewn lleoliad amgen. Ydy fy mhlentyn yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd?***

A: Nac ydy. Mae amodau grant Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, Llywodraeth Cymru, yn nodi mai dim ond ar gyfer disgyblion mewn lleoliad gwladol y mae'r ddarpariaeth ar gael.

***C: Dydw i ddim yn siŵr a fydd fy mhlentyn yn bwyta'r bwyd sy'n cael ei ddarparu bob dydd; a oes modd i'm mhlentyn ddod â phecyn bwyd gydag ef/hi o hyd?***

A: Bydden ni'n annog yn gryf bod pob disgybl cymwys yn manteisio ar ei Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd. Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth eang o fwyd i geisio sicrhau bod rhywbeth at ddant pawb. Serch hynny, pe bai'n well gyda chi ddarparu pecyn bwyd, mae croeso i chi wneud hynny.